# Adrodd a Chymorth

## Sut mae adrodd yn gweithio a sut byddwn ni'n eich cefnogi

Pan fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth Adrodd a Chymorth i roi gwybod i ni am rywbeth sydd wedi digwydd, dyma sut y byddwn ni'n eich cefnogi chi:

**Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tîm Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth**

**Bydd ymarferydd arbenigol sy'n ystyriol o drawma yn ymateb i chi drwy Cyswllt Myfyrwyr neu'r e-bost a roddwyd gennych chi**

**Byddwn ni'n trefnu apwyntiad ar-lein neu wyneb yn wyneb i gynnig cymorth cyfrinachol a charedig, a byddwn ni ddim yn eich beirniadu chi**

**Yn yr apwyntiad, byddwn ni'n trafod opsiynau o ran cymorth ac adrodd pellach, gan ystyried eich anghenion diogelwch uniongyrchol, atgyfeiriadau, a'r camau nesaf**

**Byddwn ni'n cynnig cymorth yn seiliedig ar eich anghenion, fel apwyntiadau dilynol neu atgyfeiriadau arbenigol** (gyda'ch caniatâd)

Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tîm Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth. Mae gennych chi hefyd yr opsiwn i adrodd yn ddienw. Sut y byddwn ni'n ymdrin â'ch gwybodaeth:

**Bydd eich adroddiad yn mynd at y Tîm Cefnogi Myfyrwyr ac Ymyrraeth**

**Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn ein helpu i ddeall problemau yn y brifysgol ac yn llywio ein hymdrechion atal**

Os hoffech chi siarad â rhywun, rhowch wybod i ni gyda'ch manylion cyswllt.
reportandsupport@caerdydd.ac.uk